

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion Cyfarfod Hybrid Arbennig a gynhaliwyd ar 28 Ionawr, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorydd C. Iannucci-Williams (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman, E. Penn, J. Protheroe a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, J. Aviet, R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), G. Bruce, I.R. Buckley, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), J.E. Charles, A.M. Collins, C.P. Franks, R.E. Godfrey, E.J. Goodjohn, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards, S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid), R. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol), N.C. Thomas, R.R. Thomas, M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu) ac N.J. Wood.

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd A.M.Ernest fuddiant personol yn Eitem Agenda Rhif 3 – Parcio Ceir – sef ei fod yn aelod o Glwb Hwyllo Penarth. Gan mai buddiant personol yn unig oedd hwn, arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem ar yr agenda.

PARCIO CEIR (CYF) –

Cyn dechrau'r eitem hon, hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor, y siaradwyr cyhoeddus a'r mynychwyr neu'r arsylwyr eraill sut y byddai'r cyfarfod yn cael ei drefnu a'r broses gysylltiedig. Nododd y Cadeirydd hefyd fod penderfyniad y Cabinet ar y cyfeiriad / adroddiad hwn a'r cynigion ynghylch newidiadau i fesurau parcio 'mewn egwyddor' yn unig, a oedd yn golygu nad oedd penderfyniad terfynol wedi'i wneud ar y rhain. Roedd nawr angen i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad, a'r safbwyntiau a fynegwyd gan bob parti yn y cyfarfod, ac yna nodi naill ai ei gymeradwyaeth o'r cynigion neu i'w

sylwadau, ei bryderon a'i argymhellion ar y rhain fynd yn ôl i'r Cabinet iddo ystyried yr adroddiad a'r cynigion ymhellach. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at yr amrywiol negeseuon e-bost, sylwadau ysgrifenedig gan aelodau'r cyhoedd, Aelodau Etholedig a phartïon eraill â diddordeb, a oedd wedi'u rhannu ag Aelodau'r Pwyllgor ac ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Cafodd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2025 ei gyd-gyflwyno gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai a Phennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth, a'i ddiben oedd i'r Pwyllgor ystyried a rhoi sylwadau ar gyflwyno taliadau parcio oddi ar y stryd ac ar y stryd mewn sawl lleoliad arfordirol, rhoi cyngor ar gynigion ar gyfer parcio i breswylwyr yn y dyfodol a phenderfynu dyfodol Maes Parcio Aml-lawr Court Road yn y Barri, fel rhan o ddull mwy 'cyfannol' o ymdrin â pharcio a gwefru ceir yn y Sir.

Gosodwyd y cynigion hyn o fewn yr hinsawdd bresennol o sefyllfa gyllidebol heriol i'r Cyngor a'r Gyfarwyddiaeth berthnasol, yr angen am arbedion, yn ogystal â'r angen i leihau tagfeydd a symud gyrwyr o barcio ar y stryd i feysydd parcio lle bynnag y bo modd. Byddai'r mesurau hefyd yn helpu i symud pobl i drafnidiaeth gyhoeddus a mathau eraill o deithio mwy 'llesol', fel rhan o ystyriaethau amgylcheddol. Byddai manteision neu gymorth i breswylwyr lleol ac eraill, fel tocynnau tymor i breswylwyr lleol ar gyfer parcio ar y stryd, sy'n cyfateb i ddim ond £2 yr wythnos i breswylwyr a masnachwyr.

At hynny, roedd y cynigion yn cydymffurfio â'r fframwaith deddfwriaethol a oedd ar waith (h.y. Adran 55 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984) a Deddf Rheoli Traffig 2024 ar gyfer y taliadau parcio ar y stryd) ac roedd yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb perthnasol wedi'u cwblhau ar gyfer y rhain. Byddent hefyd yn destun Gorchmynion Rheoli Traffig (GRhTau) fel rhan o'r newidiadau sydd i'w gweithredu ac yn destun cyfnod ymgynghori 21 diwrnod felly byddai'n rhaid i'r Cyngor gymhwyso hysbysiadau, pe bai'r rhain yn mynd yn eu blaenau, i'r lleoliadau hynny gan roi gwybod am y newidiadau GRhT yn fanwl a byddai'r cyfnod ymgynghori 21 diwrnod dilynol yn gyfle i breswylwyr godi unrhyw wrthwynebiadau, sylwadau a phryderon.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau y byddai'n gwrando'n astud ar y ddadl ac y byddai'n mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau neu sylwadau a godwyd gan Aelodau Etholedig ac aelodau'r cyhoedd.

Rhannwyd cyflwyniad, a oedd yn cyd-fynd â'r adroddiad, yn y cyfarfod, a oedd yn ymdrin â'r meysydd allweddol ac a fyddai'n helpu i lywio a strwythuro'r cyfarfod a'r areithiau, y trafodaethau, y ddadl a'r cwestiynau dilynol ar y cynigion hyn:

- Cyd-destun a chyflwyniad i'r adroddiad a'r cynigion parcio.
- Cynigion parcio - ar y stryd.
- Cynigion parcio - oddi ar y stryd.
- Maes parcio aml-lawr Court Road.
- Trwyddedau parcio i breswylwyr.

Yn dilyn cyflwyno pob un o'r adrannau hyn, gwnaeth sawl siaradwr cyhoeddus siarad, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Tynnodd Miss Laura Davenport sylw'r Pwyllgor at yr hyn yr oedd hi'n teimlo fyddai'r effaith negyddol ar fusnesau lleol ac ymwelwyr, yn enwedig preswylwyr lleol a oedd yn byw yn rhy bell i ffwrdd i gerdded ac yn defnyddio siopau a busnesau lleol yn rheolaidd, y tu allan i'r tymor, gyda chyflwyno'r newidiadau arfaethedig i daliadau parcio. Byddai hyn yn atal ymwelwyr a phreswylwyr lleol rhag dod i'r Barri ac yn enwedig Ynys y Barri a'r defnydd o gaffis, bwytai a busnesau lleol, ar adeg pan oedd preswylwyr a busnesau yn teimlo effaith economaidd yr argyfwng costau byw presennol. Roedd cryfder y teimladau yn golygu bod deiseb gyhoeddus ar y mater hwn a'r pryderon ynghylch y mater wedi denu 3,500 o lofnodion hyd yma. Roedd hi'n teimlo nad oedd unrhyw ymgynghori na sgwrs wedi bod gyda'r holl bartion â diddordeb ar y cynigion hyn ac awgrymodd y dylid ystyried cymhwyso ystyriaethau 'tymhorol' o ran y cynigion parcio, fel gwneud yr ychydig oriau cyntaf yn rhad ac am ddim ac ystyried y mewnwleidiad o arolygon a gynhaliwyd gyda phobl a busnesau lleol ar yr hyn y maent ei eisiau yn Ynys y Barri (fel y gwaith creu lleoedd). Roedd hefyd yn bwysig i'r Cyngor ystyried dewisiadau amgen eraill wrth ostwng costau ar gyfer cynnal a chadw Ynys y Barri. Byddai'r sgil-ffaith ar fuddsoddiad ac ar yr economi leol yn sylweddol.
- Roedd Mr. Louis Ross yn teimlo bod safbwynt blaenorol rhai Aelodau Etholedig wrth wrthwynebu mesurau tebyg ynghylch parcio a chymorth i fasnachwyr yn 2019 bellach wedi'u gadael a'u hanghofio. Roedd yn teimlo na fu unrhyw ymgysylltu â masnachwyr ar Ynys y Barri ar y cynigion parcio ar y stryd a'r effaith ar yr economi leol. Er ei fod yn cytuno â chodi tâl ar dwristiaid am barcio ni ddylid cymhwyso hyn i breswylwyr lleol oherwydd eu bod yn cefnogi busnesau lleol a'r economi y tu allan i'r tymor. Un o'r pethau allweddol i lwyddiant parhaus yr economi leol a diogelwch swyddi lleol yn yr hirdymor oedd parhau i sicrhau masnachu y tu allan i'r tymor, y gallai'r cynigion ei ddadwneud trwy yrru pobl leol i ffwrdd i leoedd â pharcio am ddim. Ni fyddai unrhyw fanteision i gyllideb y Cyngor ynghylch y cynigion parcio hyn yn cael eu teimlo am beth amser. Roedd yn teimlo bod 2 awr o barcio am ddim ar Ynys y Barri ac yna codi tâl ar ddefnyddwyr ar ôl y cyfnod hwn yn ddigonol i alluogi'r Cyngor i reoli tagfeydd a derbyn refeniw ychwanegol, yn ogystal â galluogi masnachwyr lleol i gynnal masnach, nifer ymwelwyr a swyddi lleol.
- Siaradodd Mr Matt Holland am faes parcio Cliff Walk ym Mhenarth a'r effaith y byddai codi tâl yn ei chael ar ei fusnes gerllaw. Cyfeiriodd at y profiad a gafodd pan oedd taliadau tebyg wedi'u cyflwyno ym maes parcio Cosmeston, a oedd unwaith eto'n agos at fusnes yr oedd yn berchen arno. Roedd ei fusnes yn Cosmeston wedi profi gostyngiad o 30% mewn masnach oherwydd y taliadau a gyflwynwyd, gan arwain at ostyngiad yn y dyddiau y gwnaeth ei fusnes fasnachu yno. Roedd masnach wedi cynyddu eto, er yn araf, ond roedd 20% yn is o hyd na chyn i'r taliadau parcio gael eu cyflwyno ac roedd maes parcio gorlif Cosmeston yn cael ei ddefnyddio'n llai, hyd yn oed yn ystod yr haf. Cafodd swydd ei cholli o ganlyniad. Cyfeiriodd hefyd at gyflwr gwael a pheryglus maes parcio Cliff Walk ac at y ffaith nad oedd ganddo gapasiti trydanol ar gyfer gosod mesuryddion / peiriannau tocynnau na goleuadau. Roedd yn teimlo y byddai parcio am ddim am 1-2 awr o fudd i'r gymuned leol

a ddaeth i'w siop i gael coffi a bwyd. Er mwyn egluro, gofynnodd y Cynghorydd Hooper a oedd busnes Mr Holland yn Cosmeston yn dal i weithredu ar 5 diwrnod yn unig, a chadarnhawyd bod hyn yn wir o hyd. O ran pwynt y Cynghorydd Ernest am y gwahaniaeth yn swm y fasnach yn yr Haf a'r Gaeaf, esboniwyd bod y gostyngiad mewn masnach yn y Gaeaf hyd at 50%, yn enwedig o fis Hydref ymlaen, er gwaethaf yr ymdrechion gorau i gynyddu masnach bryd hynny.

- Roedd Mr Osborne, a oedd yn berchen ar sawl busnes ar Ynys y Barri, yn teimlo bod y broses o ran y cynigion hyn yn ddiffygiol a bod y cynigion yn cael eu rhuthro drwodd heb ymgynghori priodol. Byddai hyn yn arwain at gollu busnes a swyddi yn sylweddol, gydag ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd yn mynd i rywle arall o ganlyniad. Cyfeiriodd at sut y byddai incwm o osod taliadau parcio oherwydd y diffyg yng nghyllideb y Cyngor yn cael ei ddefnyddio h.y. i gefnogi cyrchfannau gwyliau lleol a gwnaeth gwestiynu hyn, gan ei fod yn credu y gellid gosod taliadau parcio dim ond ar gyfer lliniaru neu atal tagfeydd traffig a gorfodi/monitro'r taliadau hyn, ac nid am unrhyw reswm arall o dan y ddeddfwriaeth traffig ffyrdd berthnasol. Cyfeiriodd hefyd at y cynnydd posibl mewn tagfeydd traffig, pryder sylweddol y cyhoedd o ran y cynigion hyn (gydag ymateb sylweddol ar ddeiseb leol ac e-byst i'r Cyngor), a dywedodd ei fod yn credu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth a digwyddiadau sy'n dod i'r Barri a Bro Morgannwg. Ni fyddai'r effaith 'Gavin and Stacy' yn para am byth ac roedd angen i'r Cyngor ddechrau edrych ar yr hyn yr oedd cyrchfannau eraill yn ei wneud i ddenu pobl yn hytrach na'u hanfon i ffwrdd.
- Cyfeiriodd Mrs. Cook at y bwriad i gau'r maes parcio aml-lawr yn Court Road yn y Barri a dywedodd fod yr arolygon meddiannaeth a gynhaliwyd wedi cael eu gwneud ar adegau prysur ac felly nad oeddent yn ddigon cynhwysfawr na chywir. Roedd hi wedi gwneud ei harolwg ei hun, a ganfu fod o leiaf 50% o'r maes parcio yn cael ei feddiannu am 11am yn ystod y dydd (dros 100 o geir). O ran costau i sicrhau diogelwch ar gyfer y maes parcio, nid oedd hi nac eraill yr oedd hi wedi siarad â nhw wedi arsylwi unrhyw ddiogelwch o'r fath yn ei le. O ran y parcio amgen gerllaw yn Wyndham Street, byddai hyn yn rhy fach i ymdopi â mewnlifiad y siopwyr a'r gweithwyr o Court Road. Cyfeiriodd hefyd at y diffyg tocynnau tymor i weithwyr mewn meysydd parcio eraill, ac ati, at y ffaith nad yw trafndiaeth gyhoeddus yn ddewis amgen digonol neu hyfyw, yn ogystal ag at yr effaith ar barcio, diogelwch a thagfeydd mewn ardaloedd preswyl yng nghanol tref y Barri. Hefyd, er bod y Cyngor yn buddsoddi mewn adnewyddu'r Barri, mae'n debyg ei fod yn cau lleoliadau allweddol ar gyfer parcio a fyddai'n amharu ar yr ymdrechion hyn ac yn atal y nod o gael mwy o bobl i barcio oddi ar y ffordd. Dylai'r asesiad effaith priodol hefyd fod wedi bod ar gael a'i rannu yn y cyfarfod hwn.
- Cyfeiriodd Mrs Louise Slimings, fel Rheolwr Practis Canolfan Ddeintyddol Holltwn, at effaith negyddol cau'r maes parcio aml-lawr yn Court Road yn Y Barri ar Ganolfan Ddeintyddol Holltwn gerllaw, oherwydd bod nifer sylweddol o staff a chleifion yn defnyddio'r maes parcio ac yn dibynnu'n drwm arno. Nid oedd trafndiaeth gyhoeddus yn ddigonol i ddala'r slac nac i fod yn ddewis amgen hyfyw. Ni fu digon o ymgynghori nac ymgysylltu â busnesau lleol ar hyn, gyda'r data a ddefnyddiwyd i asesu'r defnydd o'r maes parcio dan sylw yn ddiffygiol a heb adlewyrchu'r defnydd nodweddiadol neu uchaf. Byddai hyn yn effeithio'n negyddol ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd hanfodol (GIG) y

practis ac yn lleihau nifer yr ymwelwyr, gan golli staff hanfodol ac ymwelwyr/cleifion. Ni fyddai Wyndham Street yn ddewis amgen digon mawr neu hyfw. Anogodd y Cyngor i ailystyried y cynigion hyn ac archwilio opsiynau eraill a fyddai'n cefnogi'r practis deintyddol, y staff, ac ymwelwyr y practis, Ysgol Gynradd Holltwn a'r busnesau yn y dref.

- Roedd Dr. Ralphs, deintydd yng Nghanolfan Ddeintyddol Holltwn a defnyddiwr rheolaidd o faes parcio Court Road yn hynod bryderus ynghylch yr effaith y byddai'r cynnig hwn yn ei chael ar y practis a'i allu i ddarparu gofal deintyddol y GIG i breswylwyr Y Barri a gweddill Bro Morgannwg, gan fod y mwyafrif helaeth o'i staff a'i chleifion yn defnyddio'r maes parcio i fynychu'r practis bob dydd. Roedd cynnig y Cyngor y byddai maes parcio Wyndham Street yn ddigon i ddarparu ar gyfer y golled hon o le parcio yn afrealistig gan nad oedd digon o leoedd i'r holl bobl sy'n defnyddio'r maes parcio yn ddyddiol heb sôn am oblygiadau ariannol blynyddol ychwanegol tâl parcio o £6.50 y dydd i staff llawn amser y practis. At hynny, ymddengys nad oedd yr effaith ar wasanaethau a busnesau hanfodol eraill yn yr ardal wedi cael ei hystyried yn llawn. Am y rhesymau hyn, anogodd y Pwyllgor i wrthod y cynnig hwn a gofyn i'r Cyngor archwilio opsiynau eraill i gau'r maes parcio er mwyn osgoi effaith niweidiol ar y practis a'r gymuned leol.

Yn dilyn hynny, gwahoddwyd Aelodau Etholedig nad oeddent yn Aelodau Pwyllgor i siarad am wahanol feysydd / cynigion y cyfeiriad a'r adroddiad:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Charles at y pryderon a godwyd gyda hi gan etholwyr a phreswylwyr lleol ynghylch y bwriad i gau maes parcio Court Road a'i effaith, ynghyd â'r gost o weithredu cynigion o'r fath, effaith, yn ei barn hi, mwy o dagfeydd a'r gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr, amodau a gweithgarwch busnes, ac ati yng nghanol y dref a fyddai'n cael eu hachosi gan y newidiadau hyn. Gwelwyd diffyg tryloywder ac ymgynghori â masnachwyr canol y dref ac Ynys y Barri, sydd eisoes dan bwysau oherwydd cynnydd mewn Yswiriant Gwladol a'r Isafswm Cyflog.
- Mynegodd y Cynghorydd Godfrey bryderon am effaith y taliadau parcio ar Hosbis Marie Curie yn Bridgerman Road, Penarth ac awgrymodd y dylid gosod peiriant cofrestru yn yr hosbis i ymwelwyr er mwyn osgoi hyn. Cyfeiriodd hefyd at Gwibrân lle'r oedd y Cyngor wedi cynnal parcio am ddim ac at yr effaith niweidiol y byddai'r cynigion yn ei chael ar Heol Holltwn.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Hodges at y cynigion o ran meysydd parcio oddi ar y stryd Bron y Môr a Cold Knap yn y Barri a'r effaith negyddol bosibl ar ymwelwyr a phreswylwyr lleol, yn ogystal â busnesau lleol a oedd yn dibynnu ar y math hwn o ymwelwyr ac ansawdd gwael yr arwynebau yno. O ran Ynys y Barri a thaliadau parcio ar y stryd, holodd sut y byddai'r drefn codi tâl yn cael ei hesbonio i dwristiaid oedd yn parcio yno ac roedd yn amheus ynghylch manteision cyhoeddi tocynnau tymor, yn ogystal â phryder a dicter y cyhoedd lleol o ran y cynigion hyn. Er gwaethaf y diffyg gwaith cynnal a chadw, defnyddiwyd maes parcio Court Road yn dda ac roedd yn cwestiynu beth fyddai ei ddefnydd yn y dyfodol. Roedd yn teimlo y dylid tynnu'r cynigion yn ôl oherwydd y rhesymau hyn.
- Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson mai dyma'r trydydd tro i'r Cyngor wneud cynigion ar daliadau parcio a theimlai y byddai'r rhain yn cael effaith negyddol ar y lleoliadau a amlygwyd, gan gynnwys canol y dref o ran parcio a

cholli nifer yr ymwelwyr ac incwm i fusnesau lleol. Ni fu unrhyw ymgynghori â'r partion â diddordeb ac roedd yr arolwg defnydd ar gyfer maes parcio Court Road yn ddiffygiol. Ni fyddai maes parcio Wyndham Street yn gallu dala'r slac. Byddai cau'r maes parcio hwn hefyd yn cael effaith negyddol ar adfywio'r dref. Roedd angen i'r cynigion hyn fynd yn ôl i'r Cabinet i gael eu hailasesu a'u hailystyried, gyda'r bwriad o gael eu disodli.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Collins hefyd at y diffyg ymgynghori ar y cynigion hyn a'r effaith niweidiol y byddent yn ei chael ar ganol tref y Barri, ac at y ffaith mai nhw fyddai'r 'hoelen olaf yn yr arch' ar gyfer y dref. Byddai'r rhain hefyd yn cael effaith ganlyniadol ar barcio i breswylwyr a strydoedd ochr. Awgrymodd y dylid tynnu'r adroddiad yn ôl, ac ymgynghori ar y cynigion.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Thomas at effaith negyddol bosibl y cynigion parcio ar economi a chymuned leol Penarth, yn enwedig o amgylch Promenâd Penarth a glan y môr. Roedd yn teimlo na fu unrhyw ymgynghori ac nad oedd y Cyngor yn creu amgylchedd sy'n ffafriol i gefnogi a meithrin busnesau lleol.

Yn ystod cyflwyno'r adroddiad, gwnaeth sawl Aelod o'r Pwyllgor ofyn nifer o gwestiynau neu wneud sylwadau am y cynigion:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Norman at nod y Cyngor ar gyfer y cynigion hyn i annog preswylwyr ac eraill i adael eu ceir a defnyddio dewisiadau amgen addas i deithio, ond nid oedd hyn yn ymarferol o fewn y Fro Wledig, gyda'i drafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig ac felly roedd defnyddio car yn hanfodol i deithio o'r ardaloedd hyn i'r Barri, ac roedd yn hanfodol cael cymaint o le parcio ar gael mewn ardaloedd trefol fel y Barri. Felly roedd y cynigion ynghylch taliadau parcio a maes parcio Court Road yn anfanteisiol a byddent yn effeithio'n negyddol ar ymwelwyr a gweithwyr lleol.
- Adleisiodd y Cynghorydd Champion sylwadau rhai siaradwyr cyhoeddus am gael parcio am ddim am yr awr gyntaf, gan nodi'r profiad yn ei ward. Roedd ceir yn dal yn hanfodol ar gyfer llawer o deithiau yn y Fro ac felly, nid oedd y cynigion yn briodol.
- Adleisiodd y Cynghorydd Hooper hefyd y pryderon a godwyd am y defnydd o refeniw o'r taliadau parcio o dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd berthnasol, pryderon masnachwyr ynghylch dychwelyd i fasnach dymhorol yn Ynys y Barri, y chwalfa ymddiriedaeth ynghylch codi tâl, colli masnach posibl a thagfeydd. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd maes parcio aml-lawr Court Road i breswylwyr a'r cyhoedd ehangach er mwyn cael mynediad at wasanaethau, gwaith ac ysgolion. Tynnodd sylw at bryderon ynghylch colli masnach ac incwm posibl ar gyfer busnesau lleol yn yr ardaloedd lle byddai taliadau parcio yn cael eu cyflwyno, fel maes parcio Bron y Môr ac arwynebau gwael mewn meysydd parcio, heb unrhyw gapasiti trydan ar gyfer mesuryddion tocynnau yn Cliff Walk. Byddai dadleoli yn gwaethygu oherwydd y cynigion hyn. Nid oedd ymgysylltu wedi digwydd, gyda'r broses o ran y cynigion hyn hefyd yn peri pryder, ac roedd yn feirniadol o'r amgylchiadau ynghylch cyllidebau gostyngol y Cyngor.
- Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig i'r Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) perthnasol gael eu cynnwys mewn adroddiadau a gwnaeth gynnig y dylent fod ar gael i'r Aelodau eu gweld a chwestiynu'r statws presennol ar ailwynebu meysydd parcio yn Y Barri a Phenarth. Cyfeiriodd hefyd at absenoldeb arolygon traffig, yr angen i ystyried taliadau

parcio tymhorol, ac ailwynebu'r meysydd parcio fel Bron y Môr a Cliff Walk, cyn i'r taliadau a'r cynigion gael eu gweithredu. Mynegodd bryderon hefyd am fforddiadwyedd tocynnau tymor a thaliadau parcio.

- Gofynnodd yr Is-gadeirydd a oedd unrhyw asesiad wedi'i gynnal ar y dadleoli parcio posibl o ganlyniad i'r cynigion hyn, ac roedd yn bwysig cael y wybodaeth hon a'r AEG er mwyn sicrhau barn wybodus ar y cynigion hyn gan gynnwys yr un sy'n ymwneud â pharcio ger Marie Curie. Roedd angen arolwg cyfredol o ddefnyddwyr maes parcio Court Road a rhanddeiliaid eraill. Gofynnodd hefyd am y gwahaniaeth rhwng y taliadau parcio oddi ar y stryd ac ar y stryd a'r angen am fwy o stondinau beiciau, ac ati.
- Roedd y Cynghorydd Protheroe yn poeni am y golled bosibl i fusnesau lleol oherwydd y cynigion hyn. Roedd angen mwy o wybodaeth ac asesiad ynghylch effaith y cynigion ar fasnachwyr a busnesau lleol. Roedd yn ymddangos bod angen gwneud mwy o waith ynghylch y cynigion hyn, a'r angen i gyfaddawdu gyda neu baratoi'r rhanddeiliaid hynny yr effeithir arnynt yn uniongyrchol yn well, gan gydnabod yr angen i wneud arbedion a chefnogi a diogelu gwasanaethau allweddol. Roedd hefyd yn bwysig tynnu sylw at yr effaith bosibl ar ymwelwyr â Chanol Tref y Barri a'r angen i gadw digon o barcio yno nes bod trafndiaeth gyhoeddus yn cael ei gwella.
- Mynegodd y Cynghorydd Penn ei bryderon ynghylch rhai agweddau ar y cynigion ond roedd yn deall cefndir y rhain yng ngoleuni cyllidebau gostyngol y Cyngor a phwysleisiodd fod Aelodau Etholedig a'r Cyngor yn gwrando ar y pryderon a oedd yn cael eu mynegi. Roedd modd cael nifer fawr o ymwelwyr i ddod i lan y môr a Phromenâd Penarth ar droed ond teimlai y dylai fod awr gychwynnol am ddim i ymwelwyr neu bobl leol oedd yn parcio eu ceir gerllaw. Dylid adolygu'r cynllun hwn ar ôl cyfnod penodol (h.y. ar ôl i dymor yr haf ddod i ben) a dylid defnyddio unrhyw ddata a gesglir i wneud unrhyw newidiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau niweidiol. Mewn perthynas â thaliadau parcio oddi ar y stryd dylid ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol yng Ngorllewin y Fro mewn perthynas â dylunio gwasanaethau meysydd parcio yn yr ardal honno.
- Mynegodd y Cynghorydd Ernest ei bryderon am gynigion parcio a'r effaith bosibl ar siop / hosbis Marie Curie yn Bridgerman Road, Penarth ac ar staff ac ymwelwyr o ran parcio a thagfeydd ychwanegol ar y ffordd hon. Cyfeiriodd hefyd at faes parcio Cliff Walk a'r diffyg trafndiaeth reolaidd yn ôl ac ymlaen yno a'r effaith bosibl ar ddefnyddwyr anabl. Tynnodd sylw at yr arwynebau gwael yn y maes parcio a'r gost ychwanegol o newid y rheoliadau traffig perthnasol. Gofynnodd hefyd a allai fod dewisiadau amgen i'r taliadau parcio arfaethedig ac a ellid gwneud arbedion mewn mannau eraill. Byddai colledion sylweddol i fusnesau a thwristiaeth, yn ogystal ag i ymwelwyr a staff a phryderon am gost y tocyn tymor arfaethedig. Cytunodd hefyd gyda thynnu'r cynigion yn ôl fel yr oeddent yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Wiliam at y cynigion blaenorol ynghylch newidiadau meysydd parcio, y diffyg ymgynghori ar y broses hon a'r ffaith bod y cynigion a'r broses ei hun wedi cael eu rhuthro a'u bod wedi'u cynllunio'n wael. Teimlai hefyd y byddai amgylchiadau o'r fath yn arwain at golli ymddiriedaeth yn y Cyngor, yn ogystal â difrod i'r economi leol, bywoliaethau ac yn achosi dadleoli parcio a thagfeydd sylweddol ar Ynys y Barri ac mewn lleoliadau eraill. Ni fyddai parcio am ddim am awr yn ddigonol i fod o fudd i fasnach leol. Byddai tocyn tymor ar gyfer parcio i breswylwyr, er ei fod yn syniad diddorol

mewn egwyddor, yn dal i gael ei ystyried yn gostus ar y cyfan ac nid oedd yr awgrym ynghylch cael benthyciadau cost isel er mwyn helpu preswylwyr i fforddio hyn yn realistig. Cymeradwyodd hefyd y cynnig posibl i dynnu'r cynigion hyn yn ôl.

- Gwnaeth y Pwyllgor groesawu'r cynigion ynghylch trwyddedau parcio i breswylwyr.

Aeth Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai a Phennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth i'r afael â'r materion a'r cwestiynau a godwyd, gan gynnwys:

- O ran yr amodau ar ddefnyddio'r refeniw a godwyd o'r mesurau hyn o dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd, esboniwyd mai dim ond ar gyfer ardaloedd penodol y gallai'r Cyngor ddefnyddio'r refeniw hwn a bod y cyngor cyfreithiol perthnasol wedi'i geisio. Byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio a'i fuddsoddi mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth. Roedd hyn yn cynnwys nid yn unig lleihau tagfeydd ac annog gyrwyr i barcio mewn meysydd parcio oddi ar y stryd, ond hefyd ystyriaethau amgylcheddol, seilwaith priffyrdd ac eraill fel goleuadau a chyfleusterau lleol.
- O ran arolygon traffig, hyd yn hyn dim ond adolygiadau bwrdd gwaith a oedd wedi'u cynnal.
- O ran taliadau parcio ar y stryd, roedd cysylltiad annatod rhwng y rhain â'u cymheiriaid oddi ar y stryd, h.y. byddai preswylwyr a thwristiaid yn dewis parcio ar y stryd lle rhoddir amser parcio am ddim yn hytrach na dewis parcio oddi ar y stryd, a'r nod oedd codi taliadau ychydig yn uwch am barcio ar stryd i annog pobl i ddefnyddio meysydd parcio lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn lle hynny, a thrwy hynny leddfau tagfeydd mewn ardaloedd fel Ynys y Barri.
- O ran wynebu/ailwynebu a gwella meysydd parcio fel Bron y Môr a Cliff Walk, roedd yr arwynebau wrthi'n cael eu harchwilio ac roedd mwy o arian yn cael ei geisio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ailwynebu. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi gofyn am sicrwydd y byddai'r gwaith ar ailwynebu a gwelliannau i feysydd parcio yn cael ei wneud cyn i unrhyw gynigion codi tâl gael eu rhoi ar waith. Yn dilyn hynny, nodwyd yn yr adroddiad bod ymrwymiad wedi ei wneud ym mharagraff 2.17 y byddai angen gwaith i wella'r arwyneb yn Cliff Walk cyn codi tâl. Awgrymwyd bwriad tebyg hefyd i Bron y Mor. Fodd bynnag, esboniwyd na ellid rhoi unrhyw warant yn llawn ar hyn o bryd y gellid gwneud neu gwblhau ailwynebu cyn cyflwyno'r taliadau arfaethedig, oherwydd yr angen i aros i gyllideb y flwyddyn ariannol newydd gael ei dyrannu/ei gosod ac am gyllid gan y llywodraeth ganolog. Fodd bynnag, roedd yr angen am ailwynebu yn y meysydd parcio a nodwyd yn parhau'n rhan allweddol o ddyheadau, cynigion a chynlluniau y Cyngor, o ran ei ddyletswyddau cyfreithiol ac oherwydd y gydnabyddiaeth bod angen gwneud gwaith i wella'r arwynebau hyn lle byddai pobl yn talu i barcio.
- O ran arwyddion a hysbysu ymwelwyr am y gwahaniaeth mewn taliadau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd er mwyn eu hannog i wneud yr olaf, byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy roi gwybodaeth ar wefan y Cyngor, ar fesuryddion parcio cyfagos ac ar arwyddion sydd wedi'u dylunio i gyfleu'r wybodaeth hon yn effeithiol.
- Cadarnhawyd na fyddai'r cynigion yn effeithio ar yrwyr anabl gyda bathodynau glas a allai barhau i barcio yn unrhyw le ac a fyddai â manau parcio penodol o hyd.

- Roedd GRhTau, er eu bod yn ddrud, yn cael eu costio yn rhan o'r trefniadau a byddent yn destun adolygiad pellach.
- O ran Cliff Walk, byddai'r cyfleuster yn cael ei uwchraddio a'i reoli'n briodol, gyda pheiriannau tocynnau pŵer solar i'w gosod.
- Cyfeiriwyd at gostau rhedeg a chynnal a chadw maes parcio aml-lawr Court Road a'r heriau a'r anghenion cystadleuol o ran hyn, yr arolygon bwrdd gwaith a'r astudiaethau ynghylch ei ddefnydd, a'r gwaith strwythurol yn y dyfodol a fyddai'n sylweddol yng ngoleuni'r ffaith bod y maes parcio yn cael ei danddefnyddio yn seiliedig ar y data a gasglwyd. Byddai'r materion a godwyd ynghylch diogelwch yno yn cael eu hystyried. Nid oedd cynlluniau ar hyn o bryd ar yr hyn a fyddai'n cael ei ddatblygu ar y safle hwn.
- Roedd stondinau beiciau ar gael mewn ardaloedd fel Heol Holttwn ond byddai angen ystyried a oedd y rhain yn ddigonol.
- O ran yr AEGau, roedd y rhain yn edrych ar faterion yn ymwneud â nodweddion gwarchoddedig ac nid yn uniongyrchol ar fasnachwyr neu fusnesau.
- O ran Hosbis Marie Curie, roedd ganddi ei pharcio ei hun na fyddai'n cael ei effeithio. Gellid edrych ar unrhyw faterion yn ymwneud â dadleoli yn iawn ar ôl i'r cynigion gael eu gweithredu. Gellid edrych ar ddewisiadau amgen eraill o ran cadw manau parcio gerllaw h.y. trwyddedau preswylwyr.

Siaradodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Adeiladau a Chymdogaeth hefyd, gan gyfeirio at yr angen i edrych ar daliadau parcio a'u hadolygu, a chynigion tebyg oherwydd y pwysau cyllidebol heriol a wynebodd y Cyngor. Un o brif amcanion y cynigion hyn oedd creu newid, drwy ryddhau manau parcio ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr, yn ogystal â helpu i annog teithio llesol. Yn y pen draw, byddai'r cynigion hyn yn helpu'r gymuned a'r economi leol. Roedd dull mwy cyfannol ac amrywiol yn cael ei weithredu er mwyn cefnogi a datblygu ardaloedd trefol a chyrchfannau gwyliau gan ddefnyddio adolygiad a dull cynyddol. O ran y materion yn ymwneud â chost tocynnau tymor, roedd benthyciadau cost isel drwy'r Undeb Credyd yn cael eu trafod, yn ogystal â defnyddio tocynnau blynyddol neu chwe mis a'r manteision posibl o ddefnyddio'r rhain fel ffordd rad o gael mynediad at gyfleusterau hamdden a chyrchfannau gwyliau. Byddai'r hyn a godwyd yn y cyfarfod ynghylch yr effaith bosibl ar barcio i weithwyr, preswylwyr ac ati a'r pryderon eraill a fynegwyd yn cael eu hystyried a'u clywed.

Galwyd pleidlais wedi'i chofnodi am Gynnig / argymhelliad a gyflwynwyd ac a eiliwyd a oedd yn gofyn i'r cynigion presennol yn y cyfeiriad a'r adroddiad gael eu tynnu'n ôl (ac eithrio'r un sy'n ymwneud â thrwyddedau parcio i breswylwyr) ac i'r rhain gael eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet a drafftio cynigion newydd, yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor, Aelodau Etholedig ac aelodau'r cyhoedd yn y cyfarfod:

Cynghorydd	Canys	Yr Erbyn	Ymatal
S. Lloyd-Selby	√		
C. Iannucci-Williams	√		

C.E.A. Champion		√	
P. Drake	√		
V.P. Driscoll		√	
A.M. Ernest		√	
M.J. Hooper		√	
J.M. Norman	√		
E. Penn			√
J. Protheroe	√		
S.T. Wiliam		√	
CYFANSWM	5	5	1

Oherwydd bod pleidlais gyfartal, pleidleisiodd y Cadeirydd, gyda'i phleidlais fwrw, yn erbyn y Cynnig / argymhelliad ac felly ni chafodd ei gario.

Yn dilyn hynny, cyflwynwyd ac eiliwyd Cynnig / argymhelliad pellach a phleidlais wedi'i chofnodi a oedd yn gofyn i'r adroddiad gael ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gyda'r sylwadau a wnaed a'r materion a amlygwyd gan y Pwyllgor, Aelodau Etholedig ac aelodau'r cyhoedd yn y cyfarfod, er mwyn i waith ychwanegol gael ei wneud ar gynigion yr adroddiad cyn eu gweithredu:

Cynghorydd	Canys	Yr Erbyn	Ymatal
S. Lloyd-Selby	√		
C. Iannucci-Williams	√		
C.E.A. Champion		√	
P. Drake	√		
V.P. Driscoll		√	
A.M. Ernest		√	
M.J. Hooper		√	
J.M. Norman	√		
E. Penn			√

J. Protheroe	√		
S.T. Wiliam		√	
CYFANSWM	5	5	1

Oherwydd bod pleidlais gyfartal, pleidleisiodd y Cadeirydd, gyda'i phleidlais fwrw, o blaid y Cynnig / argymhelliad ac felly fe'i pasiwyd.

Amlinellodd y Cadeirydd y sylwadau a'r materion allweddol a godwyd yn y cyfarfod, a fyddai'n cael eu cyfeirio at y Cabinet fel rhan o'r argymhelliad a gariwyd.

Yn dilyn y pleidleisiau a gofnodwyd, Pwyllgor

CYMERADWYWYD – BOD, yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor, yr adroddiad yn cael ei gyfeirio ôl at y Cabinet gyda'r sylwadau/materion canlynol wedi'u nodi, er mwyn gwneud gwaith ychwanegol ar gynigion yr adroddiad cyn eu gweithredu:

- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnig ynghylch trwyddedau parcio i breswylwyr;
- Bod Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) yn cael eu cymhwyso i bob un o'r cynigion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad. Roedd y Pwyllgor yn teimlo na fu digon o ystyriaeth ar y rhain ac roedd angen yr effeithiau ar y lleoliadau yr effeithiwyd arnynt a gwaith pellach;
- O ran y pwynt ar y defnydd o AEGau uchod, roedd hyn yn cynnwys maes parcio aml-lawr Court Road, gydag angen gwaith pellach i nodi defnydd cyfredol ac effaith bosibl ei gau ar argaeledd manau parcio amgen, yr effaith bosibl y gallai hynny ei chael ar drigolion cyfagos ac unrhyw liniaru y byddai ei angen i fynd i'r afael â'r pryderon hynny. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid rhoi dyfodol maes parcio Court Road o fewn gweledigaeth ar gyfer canol y dref mewn perthynas ag adnewyddu canol y dref ac y dylid ystyried cynnwys cais cyfalaf i sicrhau dyfodol y maes parcio fel rhan o'r broses honno. Dylid archwilio atebion creadigol i sicrhau dyfodol y maes parcio;
- O ran y cynigion parcio ar y stryd, rhoddir ystyriaeth bellach i hyn, gan gynnwys cyfnod ar gyfer parcio ceir am ddim o awr neu ddwy awr a/neu barcio tymhorol;
- Pe bai costau parcio ar y stryd yn cael eu cyflwyno, yna dylid cynnwys cyfnod adolygu i mewn i hynny fel y gellid gwneud newidiadau priodol yn ôl y gofyn;
- Bod y sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â defnyddio unrhyw arian y gellid ei godi drwy gyflwyno taliadau parcio ceir yn cael ei egluro, er mwyn deall yn llawn beth y gellid gwario'r arian hwnnw arno yn benodol;
- O ran costau parcio oddi ar y stryd, barn y Pwyllgor oedd y dylid gwneud gwaith i wella'r cyfleusterau parcio ceir yn Cliff Walk – Penarth, a Bron y Môr – y Barri, cyn gweithredu codi taliadau yn y lleoliadau hynny;
- Byddai angen y capasiti gorfodi priodol hwnnw i gyflawni'r amcanion o gyflwyno codi tâl mewn ardaloedd ar y stryd ac oddi ar y stryd;
- Dylid ystyried pa ddulliau y gellid eu gwneud i sicrhau fforddiadwyedd mewn perthynas â thrwyddedau parcio fel nad oedd preswylwyr lleol a allai fod yn profi caledi ariannol dan anfantais;

- Mewn perthynas â thaliadau parcio oddi ar y stryd dylid ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol yng Ngorllewin y Fro mewn perthynas â dylunio gwasanaethau meysydd parcio yn yr ardal honno.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet, yr adroddiad a atodwyd a'r trafodaethau yn y cyfarfod, teimlai'r Pwyllgor fod angen ystyriaeth bellach ac ymgynghori fel rhan o adolygu cynigion yr adroddiad, a dylai'r Cabinet ystyried eu sylwadau fel rhan o hyn.